# CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

**Cadeirydd: Alun Owen**

Nos Lun Tachwedd 6ed 2023 am 7.30 y.h

## Cofnodion (111)

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gethin Pyrs
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis, ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Hydref:** Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER yn cynnig gyda GJ yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   5.1.1. Diweddara ynglŷn â thorri coed ar y parc picnic – cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer dydd Iau 09/11/23.
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. CBSC – Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol a Mannau Pleidleisio – penderfynwyd anfon llythyr yn pwysleisio pwysigrwydd y ganolfan pleidleisio leol.
   6.2. Zurich – wedi ychwanegu'r diffib ar yr yswiriant yn ddi-gost am eleni, bydd tal o £20 ar yr yswiriant y flwyddyn nesa.
   6.3. Gwasanaeth Llyfrgelloedd Conwy – gofyn am gyfraniad o £500 tuag at ariannu gwasanaeth llyfrgelloedd proffesiynol yn Llyfrgell Gymunedol Uwchaled. Penderfynwyd gadael y penderfyniad tan y cyfarfod nesaf pan fydd mwy yn y cyfarfod.
   6.4. Darren Millar – cynnig dod i gyfarfod a'r Cynghorwyr – cytunwyd ar adael tan nes i amser yr etholiad.
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn
9. **Talu Anfoneb:**
   9.1.1. R Jones trydanwr cynigiodd GJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o **£176.22** gyda siec rhif **100399** (S133)
10. **Gosod Cyllideb/Praesept:**
    Edrychwyd ac ail osod y Gyllideb am y flwyddyn ariannol nesa a chytunwyd ar godi'r Praesept £530.00 i **£5,330.00.** Cytunodd pawb ar hun.
11. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** – dim mwy i ychwanegu na oedd wedi ei drafod yn y cyfarfod.
12. **Unrhyw fater arall:**
    12.1.1. Dim
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** – i'w drefnu

**Arwyddwyd**________________________________ **Dyddiad**____________________

Cadeirydd